



Cymunedau am Waith Astudiaeth Achos 3 - Mr B

Mae Mr B yn ddyn priod gyda 4 o blant. Pan ddaeth at y cynllun i ddechrau, roedd ganddo nod clir: bod yn hunangyflogedig, er hynny roedd yn wynebu nifer o rwystrau.

Mae Mr B yn cefnogi ei wraig sydd â phroblemau iechyd parhaus ac mae gan un o'i blant broblemau iechyd sy'n effeithio ar ei bywyd dydd i ddydd. Mae wedi ysgwyddo cyfrifoldebau rhedeg y tŷ a'r gofal plant o ddydd i ddydd.

Yn y gorffennol, cwblhaodd gwrs dwy flynedd i hyfforddi fel mecanydd ceir, fodd bynnag, sylweddolodd na fyddai gweithio'n llawn amser i gyflogwr yn gefnogol i anghenion ei deulu. Roedd Mr B angen swydd a fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd yr oedd arno ei angen er mwyn parhau i gefnogi ei deulu.

Roedd Mr B eisiau dod yn fecanydd hunangyflogedig a chyfeiriodd mentor Cymunedau am Waith ef at y prosiect Effect; sy'n cynnwys rhwydwaith o weithwyr proffesiynol lleol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a fu'n ei helpu i ddatblygu ei gynllun busnes. Cafodd Mr B gymorth pellach gan MTEC, ei wraig a Cymunedau am Waith i ddatblygu ymhellach a chynhyrchu cynllun busnes cadarn a rhagolygon llif arian.

Fe wnaeth cronfa rhwystrau Cymunedau am Waith ddarparu'r offer hanfodol yr oedd ar Mr B eu hangen i fod yn hunangyflogedig ac erbyn hyn mae'n gweithio'n hunangyflogedig ac yn gallu gweithio o gwmpas anghenion ei deulu. Mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth.

Mae gwraig Mr B hefyd wedi ymgysylltu â Cymunedau am Waith, ac mae wedi llwyddo i gael gwaith amser llawn.

Arfer da

- Cydweithio i weithredu mewn ffordd gyfannol i gefnogi Mr B gan gyplysu ag asiantaethau/prosiectau/sefydliadau eraill a allai gynnig cefnogaeth a chynngor busnes
- Cafodd Mr B dawelwch meddwl, cynngor ac arweiniad gydol y broses o fod yn hunangyflogedig.
- Cynnig cefnogaeth nes i'r syniad am fusnes ddwyn ffrwyth a threulio amser gyda Mr B er mwyn iddo fagu hyder a thrafod y rhwystrau.